Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr 2021

Enw'r Elusen: Cymdethas Côr Meibion Caerfyrddin
Rhif cofrestredig: 259482
Cyfeiriad: Cyfeiriad yr Ysgrifennydd (Tŷ Hir, Picton Court, Caerfyrddin SA31 3DQ)
Ymddiriedolwyr:

Dai Lewis (Cadeirydd)
Kevin Thomas (Is-Gadeirydd)
Ieuan Phillips (Trysorydd)
Huw Michael (Ysgrifennydd)

Dogfen Rheolaeth: Y Cyfansoddiad a fabwysiadwyd ar 22/08/2017

Amcanion:
Amcanion y Côr yw hyrwyddo'r ymwybyddiaeth am ganu côrawl ymhlith y cyhoedd, a dysgu a pherfformio darnau corawl yn gyhoeddus, tra'n cynorthwyo achosion elusennol.

Gweithgareddau a Chyflawniadau 2021

Yn anffodus, yn dilyn y cyfyngiadau o ganlyniad i'r feirws Covid-19, nid oedd modd ail-ddechrau ymarferion wythnosol tan mis Mehefin, Fe gafwyd tri ymarfer yng Nghapel y Priordy ond roedd rhaid gwisgo mygydau i ganu a chadw pellter rhyngom yn y capel a roedd hyn yn anodd. Rhoddwyd y gorau iddi ar ôl tri ymarfer hyd nes yr oedd hawl gyda ni i ganu heb fygydau eto. Ail ddechreuwyd ymarferion yn Neuadd Eglwys Crist ar ddechrau mis Medi hyd at ganol Rhagfyr. Cafwyd dau berfformiad yn ystod tri mis ola'r flwyddyn.

Rheolaeth

Nid oedd newidiadau i Gyfansoddiad y côr yn ystod 2021

Swyddogion.

Nid oedd unrhyw newid yn rhestr y swyddogion am 2021. O ganlyniad i golli gweithgarwch y côr ar ôl Mawrth 2020, cytunodd Dai Lewis i barhau fel Cadeirydd am flwyddyn ychwanegol, ac yn yr un modd Kevin Thomas fel Is-Gadeirydd.

Aelodaeth

Ni bu newid yn y tâl aelodaeth ar gyfer 2021 (£120 y pen y flwyddyn), ond yn dilyn oediad y gweithgareddau, penderfynwyd gostwng y tâl i ddim ond £40 am 2021, gan ystyried taw dim ond am bedwar mis yr oeddem yn gallu cwrdd i ymarfer.

Fe dderbynion ni ymddeoliad Bryan Davies (T1) yn ystod y flwyddyn gan ddiolch iddo am dros 40 o flynyddoedd o wasanaeth i'r côr yn ddi-dor. Ymddeolodd Clifford Evans (T1) hefyd o achos anhwylder a diolchwn iddo yntau hefyd am ei wasanaeth dros nifer o flynyddoedd. Hefyd fe ymddiswyddodd Dave Hume (B2), a ni ddaeth y darpar aelodau newydd o 2020, Stuart Davies (B1) a Steve Martin (B1), yn ôl atom o achos prysurdeb gwaith a theulu.

Bu nifer o aelodau yn absennol o achos afiechyd gan gynnwys Arwyn Hughes (T1), Clive Pugh (B2), Wyn Evans (B2) a Paul Endicott(T1). Gobeithiwn eu croesawu nôl i'n plith yn 2022.

Croesawon ni un darpar aelod newydd ym mis Tachwedd, sef Steve Robertson (B2).

Nifer aelodau'r côr ar ddiwedd 2021 yw 30, gan gynnwys y darpar aelod newydd.

Mae'r gostyngiad yn nifer yr aelodau yn destun pryder i'r Pwyllgor. Cymrodd Kevin Thomas, yr Is-Gadeirydd, y blaen i ddatblygu cynllun i geisio denu aelodau newydd, gan gynnwys, o bosib, cyd-weithio gyda chorau meibion lleol eraill. Ymddangosodd Kevin ar rhaglen Siân Cothi ar Radio Cymru i hyrwyddo'r côr.

Presenoldeb

Roedd y presenoldeb yn yr Ysgol Gân wythnosol yn siomedig. Ym mis Mehefin a mis Gorffennaf dim ond 19/15/12 ddaeth I'r tri Ysgol Gan yn y Priordy. Wedyn ar ôl ail ddechrau ym mis Medi, roedd llai nag 20 yn bresennol ym mhob ymarfer gyda cyfartaledd o 16.

Cyngherddau

Cymerwyd rhan yng ngwasanaeth garolau'r "Royal Naval Association" yn Eglwys Crist ar y 13eg o Rhagfyr 2021, gyda'r côr yn perfformio 5 carol ar y llwyfan, yn ogystal â chyfrannu at y canu cynulleidfaol.

Perfformiadau Eraill

Dim un.

Priodasau

Bu'r côr yn canu ym mhriodas Angharad Blight a Dafydd yn Nhŷ Horeb, Llandeilo ar Hydref 23ain. Cafwyd brynhawn pleserus dros ben a thê a brechdanau wedi eu darparu gan y pâr priod yng nghwesty'r Cawdor i ddilyn.

Angladd

Dim un.

Elusennau

Penderfynodd y Pwyllgor oedi cyfraniadau at elusennau yn 2021, ac ystyried ail ddechrau yn 2022 yn ddibynnol ar sefyllfa ariannol y côr.

Cymdeithasol

Cafwyd noson hwylus yng Nghlwb y Cwins ar ôl y cyngerdd garolau yn Eglwys Crist ar 13eg o Rhagfyr. Roedd bwyd a diod wedi ei drefnu ar gyfer yr aelodau a chafwyd ambell i gan hefyd.

Pwyllgor y Gwragedd

Dymuna'r Côr ddiolch i Bwyllgor y Gwragedd am eu cefnogaeth parhaol, yn enwedig am ofalu am y gwisgoedd oedd yn dod nôl atom wrth i aelodau adael.

Repertoire

Dechreuwyd dysgu darn newydd, "The Wind Beneath My Wings", sy'n un o'r darnau ar gyfer cyngherddau Cymdeithas Corau Meibion Cymru, sydd bellach wedi eu hail drefnu: cyngerdd yn Neuadd Dewi Sant Caerdydd ym mis Mehefin 2023, a chyngerdd Neuadd Albert Llundain sydd bellach wedi ei ohorio tan Ebrill 2024. Hefyd fe ail ddysgon ni Carol Gŵr y Llety a Sanctaidd Nos mewn pedwar llais ar gyfer y cyngerdd garolau.

Mae rhestr llawn repertoire y côr ar ein gwefan.

Arweinydd a Chyfeilyddes

Dymuna'r Ymddiriedolwyr fynegi eu gwerthfawrogiad am wasanaeth y Parchedig Wyn Maskell a Ms Heather Williams. Mae Wyn yn dal i deithio i Gaerfyrddin i arwain y côr yn wythnosol. Rydyn yn ffodus iawn i'w cael.